# Pecyn Gweithgareddau Ysgol Gymraeg Casnewydd Activity Pack



## Blwyddyn 5 / Year 5

## Wythnos 1 / Week 1

## 29.6.20

# CYFARWYDDIADAU DYSGU ADREF/YSGOL.

**Yn y pecyn yma mae'r adnoddau i gyd sydd angen arnoch chi i gwblhau'r tasgau yn ystod yr wythnos.**

OS **YDY** EICH PLENTYN YN DYCHWELYD I'R YSGOL
Os ydy eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, **NID OES** angen iddynt gwblhau'r tasgau sydd wedi uwcholeuo mewn MELYN, dyma'r tasgau y byddwn yn cwblhau yn yr ysgol. Ar ben pob tasg yn y pecyn mi fydd yn nodi os ydy'r weithgaredd yn cael ei gwblhau yn yr ysgol neu adref.

Mi fydd gweddill y pecyn yn cael eu gwblhau adref.

OS **NAD** YW EICH PLENTYN YN DYCHWELYD I'r YSGOL
Os NAD yw eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, mi fydd y tasgau yma i gyd yn cael eu gwblhau adref. Mi fydd yna gyflwyniad fideo i'r tasgau mewn MELYN ar gael ar ein sianel You Tube ysgol. Mae'r linicau i'r fideos ar y dudalen canlynol.

# INSTRUCTIONS TO HOME/SCHOOL LEARNING

**In this pack you have all the resources that you need to complete the tasks for the week.**

IF YOUR CHILLD **IS** RETURNING TO SCHOOL:
If your child **is** returning to school, they **DO NOT** need to complete any tasks that are highlighted on the grid in **YELLOW**, these are the tasks that we will be completing in school. At the top of each task in the work pack it will also note if it is a school task or a task to be completed at home.

The rest of the tasks are to be completed at home.

IF YOUR CHILD IS **NOT** RETURINING TO SCHOOL:
If your child is **NOT** returning to school, all tasks should be completed at home. Video introductions of the tasks highlighted in YELLOW will be available on the school You Tube channel. The links to the videos are on the following page.

# Sianel You Tube / You Tube channel

Linciau i'r tasgiau sydd wedi uwcholeuo yn felyn:

Links to tasks highlighted in yellow.

Tasg Cymraeg 1/ Welsh Task 1

- https://youtu.be/oF_1s48pJMo

Tasg Cymraeg 3/ Welsh Task 3

- https://youtu.be/y6dzYKTcHfE

Tasg Lles 1/ Wellbeing Task 1

- https://youtu.be/RTnbqnVHhwg

Tasg Lles 2/ Wellbeing Task 2

- https://youtu.be/OPimysfQeEO

# Grid 29. 6. 20 - Blwyddyn 5

| LLYTHRENNEDD /LITERACY | RHIFEDD / NUMERACY | ARLOESI / INNOVATION | IECHYD A LLES/ HEALTH AND WELL-BEING |
|---|---|---|---|
| **TASG CYMRAEG YN YSGOL / WELSH TASK IN SCHOOL** Gwyliwch y clip fideo/ Watch the fideo clip https://www.literacyshed.com/tamara.html Wedyn, gwyliwch y cyflwyniad athro ar YouTube. / Then, watch the teacher's presentation on YouTube. Yn dilyn hyn, cwbwlhewch **TASG CYMRAEG 1** – Anelwch am y sêr Following this, complete **WELSH TASK 1** – Reach for the stars | **TASG MATHEMATEG YN YR YSGOL / MATHEMATICS TASK IN SCHOOL** **Mathemateg Rygbi/Rugby Mathematics** Mae chwaraewyr rygbi yn cerdded, loncian a rhedeg mewn gêm rygbi. Dewch o hyd i'r pellter mae'r chwaraewyr hyn wedi teithio yn ystod y gêm mewn 1 munud? **TASG l MATHEMATEG** **Rugby Mathematics** Rugby players have to run, jog and walk during a game. How far have these players travelled in 1 minute? **TASK 1 MATHEMATICS** | **TASG ARLOESI 1 / INNOVATION TASK 1** **Coedwigoedd Glaw Trofannol / Tropical Rainforests** Darllenwch y wybodaeth a gwyliwch y fidios. Read the information and watch the videos. Cwbwlhewch **DASG ARLOESI 1** – Haenau Coedwigoedd Glaw Trofannol. Complete **INNOVATION TASK 1** – The layers of The Tropical Rainforest | **TASG LLES 1 / WELLBEING TASK 1** https://www.youtube.com/watch?v=2PnnFrPaRgY A fedrwch chi greu cardiau fflach sy'n dangos, cwtch, neges a pump uchel? Gallech ddangos y cardiau i'ch ffrindiau ar yr iard! Can you make flash cards that show hugs, messages and a high fives? You can show these to your friends on the yard. |
| **TASG DARLLEN A DEALL / READING COMPREHENSION TASK** Darllenwch y darn darllen a chwbwlhewch **TASG 2 CYMRAEG.** Mae 3 opsiwn ar gyfer y darn darllen. Dewisiwch yr un sydd yn addas ar eich cyfer. Cofiwch i herio eich hun. Yna, cwbwlhewch y dasg 3-2-1. Read the extract and complete **TASK 2 WELSH**. There are three extracts. Choose the one that is appropriate to you. Remember to challenge yourself. Then, complete the 3-2-1 task. | **TASG MATHEMATEG 2 / MATHEMATICS TASK 2** **Darganfod bondiau o 10 100 a 1000 / Number Bonds of 10, 100 and 1000** Dilynwch y pwyntpwer ac yna atebwch y cwestiynau. Dewisiwch y rhai sydd yn addas ar eich cyfer. Cofiwch herio eich hun. Follow the PowerPoint and answer the questions. Choose the one that is most appropriate to you. Remember to challenge yourself. | **TASG ARLOESI 2 / INNOVATION TASK 2** **Anifeiliaid Arbennig Coedwigoedd Glaw Trofannol / Amazing Animals of the Tropical Rainforest** Edrychwch ar a darllenwch yr esiampl. Yna chwblhewch **Dasg Arloesi 2** – Ymchwilio i anifail sydd yn byw yn y goedwig law. Look at and read the example. Then, complete **INNOVATION TASK 2** – Research into an animal that lives in the rainforest. | **TASG LLES 2 / WELLBEING TASK 2** https://youtu.be/OPimysfQeEO Trafodwch y ddau gwestiwn yma a nodwch eich barn mewn swigod meddwl. **Beth gweithiodd yn dda i chi yn y tŷ? Beth oeddech chi'n gweld yn heriol yn ystod yr adeg?** **What worked well for you at home? What did you find challenging at during this time?** Discuss the above questions and note your opinion in thinking bubbles. |
| **DARLLEN / READING** https://youtu.be/y6dzYKTcHfE Gwrandewch ar stori gan athrawes a chwbwlhewch **TASG CYMRAEG 3** – Clawr llyfr. Listen to a Welsh story read by the teacher and complete **TASK CYMRAEG 3** – Book Cover<br><br>**Blwyddyn 5 & 6:- Mr Abracadabra Jones** | **CWIS MATHEMATEG / MATHEMATICS QUIZ** **Number Bonds of 10, 100 and 1000 / Mathematics Quiz- Number Bonds of 10, 100 and 1000** **O dan Assignments / under Assignments:** Cwis Lluosi a rhannu gyda 10 a 100- Ar fy ffordd<br>Cwis Lluosi a rhannu gyda 10 a 100- Bron yna<br>Cwis Lluosi a rhannu gyda 10 a 100- Barod am her | **TASG ARLOESI 3/ INNOVATION TASK 3** **Planhigion Rhyfeddol / Peculiar Plants** Edrychwch yn ofalus ar y teigeirian. Yna, cwblhewch **TASG ARLOESI 3** – Creu llun gwych o'r blodyn. Look closely at the orchid. Then, complete **INNOVATION TASK 3 – Draw a beautiful picture of the flower.** | **Tasg Lles 3 E-ddiogelwch cydbwyso amser sgrin /Wellbeing Task 3 E-safety balancing screen time**<br><br>Ymchwiliwch i gydbwyso amser sgrin o'r dolenni a roddir yn **Tasg Lles 3**. Yna, cwblhewch y ddau weithgaredd i'ch helpu i adnabod yr arwyddion a dod o hyd i gydbwysedd. Research balancing screen time from the links given in **Task Wellbeing 3**. Then, complete the two activities to help you spot the signs and find a balance. |

## Tasg 1 Cymraeg- Anelwch at y sêr (yn yr ysgol)
## Welsh Task 1- Reach for the stars (we will be completing in school)

Dywedodd Desmond Tutu "Hope is Being Able To See That There Is Light, Despite All Of The Darkness".

Gwyliwch y clip o Tamara https://www.literacyshed.com/tamara.html. ac yna gwyliwch gyflwyniad eich athro. A fedrwch chi greu dyfyniadau ybrydoledig ar gyfer Tamara fel ei bod hi'n gallu gwireddi ei breuddwyd?

Watch the clip of Tamara https://www.literacyshed.com/tamara.html. and watch your teacher's introduction. Can you create inspirational quotes (in Welsh) like the above for Tamara in order to help her fulfil her dream?



**TASG CYMRAEG 2 – WELSH TASK 2 (Adref/Complete at home)**




Dewiswch y darn darllen bydd yn rhoi her addas i chi. Darllenwch y wybodaeth ac yna, cwblhewch y dasg 3-2-1.
*Choose the reading extract that gives you the appropriate level of challenge. Read the extract and complete the 3-2-1 task.*

**3 ffaith diddorol a ddysgoch/*interesting facts that you learnt*:**

**2 cwestiwn sydd gennych chi/*questions that you have:***

**1 peth oedd wedi eich synnu/*thing that surprised you:***



# Coedwig Law



Barod am her

Y goedwig law yw un o'r mannau mwyaf **cynnes** a **gwlyb** ar y **Ddaear**. Gall pob math o blanhigion fyw gyda'i gilydd yn y **lleithder** (humidity) a'r gwres – blodau mor fach â gronyn o reis a choed **anferth** a **thal**. Mae'r goedwig hon yn llawn o **ddail**, **gwreiddiau** (roots), **blagur** (buds) a **choesynnau** (stems).

## Pa anifeiliaid sydd yn byw yma?

Mae llawer o anifeiliaid yn byw yn y goedwig law. Ceir miliynau o drychfilod, malwod, morgrug (ants) a mwydod sy'n llai na'r "o" yma. Bydd eliffantod enfawr yn cerdded yn ddistaw drwy'r coed a gorilas tawel yn cnoi dail a ffrwythau. Ond mae peryglon yn y goedwig hefyd, wrth i gathod mawr ffyrnig grwydro ar hyd y llawr ac eryrod hedfan rhwng y canghennau (branches). Does unman arall ar wyneb y Ddaear yn gartref i fywyd gwyllt mor ddiddorol, mor hardd ac mor beryglus.



Eryr Cribog



Teigr Swmatraidd



Malwoden y Goedwig Law

## FFEITHIAU DIDDOROL

- Ceir coedwigoedd glaw ym mhob rhan o'r Ddaear, o Ganolbarth America (Central America) i Seland Newydd (New Zealand).
- Mae rhai coedwigoedd glaw yn agos at y cyhydedd (equator) – y trofannau (tropics) yw enw'r rhan hon o'r byd.
- Mae hi'n gynnes iawn yno bob dydd - weithiau dros 40°C!
- I'r de ac i'r gogledd o'r trofannau mae coedwigoedd glaw sydd yn llawer oerach – gall y tumheredd yma ddisgyn i 5°C.

## YR AMASON, MADAGASCAR A'R CONGA

Yr Amason yw goedwig law fwya'r byd. Mae hi yr un faint â'r holl goedwigoedd glaw eraill gyda'i gilydd! Gall fwrw glaw yma am fwy na 200 diwrnod y flwyddyn
Madagascar yw cartref rhai o anifeiliaid rhyfeddaf (strangest) a mwyaf prin (rarest) y goedwig law, yn cynnwys sawl math o lemwr, ystlumod, a hyd yn oed brogaod tomato!
Y Congo yw'r ail goedwig law fwyaf yn y byd, lle mae dros 1,000 o fathau o adar, 300 math o ymlusgiaid (reptiles) a 12,000 o fathau o blanhigion yn byw. Dyma gartref y gorila mynydd prin (rare mountain gorilla).



Lemwr



Borneo

## ARFORDIR Y MÔR TAWEL, TASMANIA A BORNEO

Mae Arfordir y Môr Tawel ar hyd arfordir (coast) gogledd- orllewin Gogledd America. Yn yr haf mae hi'n gynnes yno, ond nid yn boeth, ac yn y gaeaf mae hi'n oerach, ond nid yn oer iawn. Coedwig law Tasmania, ynys (island) fer Awstralia, yw cartref anifail ffyrnig o'r enw cythraul Tasmania (Tazmanian Devil) sy'n hoff o hela (hunt) yn y tywyllwch oer. Mae coedwigoedd glaw Borneo yn gorchuddio (covers) dros hanner yr ynys hardd hon yn ne-ddwyrain Asia. Mae'n hen iawn – dros 120 miliwn o flynyddoedd oed – a dyma rai o'r coedwigoedd hynaf (oldest) yn y byd.



Broga Tomato



Cythraul Tasmania



# Broga'r Coed



Bron Yna

Creadur y nos yw broga'r coed. Mae'n cysgu drwy'r dydd ac yn hela trychfilod (hunts for insects) o bob math yn ystod y nos. Os bydd anifail peryglus (dangerous), fel neidr (snake), yn dod yn agos ato, bydd broga'r coed yn agor ei lygaid mawr coch yn lydan (wide) er mwyn drysu'r (confuse) neidr. Yna, gall y broga neidio i le diogel.

Corff gwyrdd, tebyg i liw'r dail



Broga'r Coed





Hela am drychfilod


**FFEITHIAU DIDDOROL**

- Mae bysedd traed y broga mor ludiog fel y gall gerdded ar draws ffenest!
- Fel arfer mae'n llai na 5cm o hyd.
- Mae'n byw yn y coedwigoedd glaw yn Ne a Chanolbarth America (South and Central America).
- Fel y salamandr, amffibiad (amphibian) yw broga'r coed – mae'n byw rhan o'i fywyd yn y dŵr a rhan o'i fywyd ar y tir. Mae ganddo waed oer ac asgwrn cefn.
- Gall fyw am hyd at 5 mlynedd.

Maint y broga – Tua 5cm




Perthyn i deulu'r amffibiaid fel y salamandr





Dodwy Wyau



Penbyliaid

**DODWY WYAU**

- Mae'r broga benywaidd (female) yn dodwy (lay) wyau ar ddeilen. Mae'n dewis y man yn ofalus. Mae'r ddeilen yn hongian dros pwll.
- Pan mae'r wyau yn barod i ddeor (hatch), mae'r penbyliaid (tadpoles) yn symud yn wyllt gacwn tu fewn. Dyma sut mae nhw'n agor yr ŵy.
- Yna, mae'r wyau yn golchi i lawr y ddeilen ac yna, plop! plop! plop!, mae nhw'n glanio yn y pwll.
- Mae nhw'n bwyta trychfilod bitw bach nes bod nhw'n troi mewn i frogaod.
- Unwaith mae nhw'n frogaod, mae nhw'n dringo i fyw yn y coed cyfagos.



**BETH YDYN NHW'N BWYTA?**

- Mae nhw'n hoff iawn o fwyta trychfilod. Yn enwedig criciaid (crickets), sioncod y gwair (grasshoppers) a chlêr (flies).


# Twcan

Ar fy Ffordd

Mae'r twcan yn aderyn lliwgar gyda phig (beak) mawr, cryf. Enw ar fwy nag un twcan yw **twcanod**. Mae nhw'n adar **swnllyd** iawn. Gallwch glywed haid (group) o dwcanod swnllyd dros filltir i ffwrdd!

**PIG Y TWCAN**

Oherwydd ei big fawr, lliwgar, mae'r twcan hwn yn edrych fel pe bai yn mynd i gwympo ar ei drwyn! Ond mae'r big yn llawn o **dyllau aer bach** (air holes), fel sbwng (sponge), sy'n golygu ei fod yn **ysgafn iawn** (very light).




**FFEITHIAU DIDDOROL**

- Mae llawer o wahanol mathau o dwcanod – Tua **40** i gyd! Mae rhai yn tua maint baryn o siocled a rhai mor hir â a'ch braich.
- Mae ei lliwiau llachar yn helpu nhw i guddio yn y goedwig law.
- Mae nhw'n byw mewn **coed gwag** (hollow).
- Gall rhai byw hyd at **20 mlynedd**!
- Mae cnocell y coed (woodpecker) yn perthyn (related) i'r twcan.
- Enw ar dwcan bach yw **cyw** (chick).




Dros 40 math



Byw mewn coed gwag





Cyw bach



Cnocell y coed

Bwyta ystlum





Bwyta aeron

**BETH YDYN NHW'N BWYTA?**


Bydd y twcan yn byw mewn grŵp bach ac yn bwyta pob math o fwyd – aeron (berries), ffrwythau (fruit), trychfilod (insects) ac ambell froga (frog) neu ystlum (bat) hefyd!



Bwyta broga

**Tasg 3 Cymraeg (Adref)**

**Welsh Task 3 (Complete at Home)**




Gwrandewch ar Mrs Davies yn darllen y stori Mr Abracadabra Jones. Allwch greu clawr llyfr newydd ar gyfer y stori?

Listen to Mrs Davies reading the story Mr Abracadabra Jones. Can you create a new front cover for the story?

- https://youtu.be/y6dzYKTcHfE

# TASG MATHEMATEG 1 – MATHEMATICS TASK 1

**Mathemateg Rygbi** Mae chwaraewyr rygbi yn cerdded, loncian a rhedeg mewn gêm rygbi. Dewch o hyd i'r pellter mae'r chwaraewyr hyn wedi teithio yn ystod y gêm mewn 1 munud?
**Rugby Mathematics** Rugby players have to run, jog and walk during a game. How far have these players travelled in 1 minute?

Ar fy ffordd

**Beth yw'r cyfanswm?**
**What's the total?**

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | 50m | 20m | 30m | m |
| Prop | 40m | 10m | 20m | m |
| Mewnwr | 15m | 25m | 25m | m |
| Cefnwr | 25m | 25m | 30m | m |



Dewch o hyd i'r pellteroedd coll.
Find the missing distance.

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | 100m | 20m | m | 200m |
| Prop | m | 50m | 50m | 200m |
| Mewnwr | 70m | m | 80m | 400m |
| Cefnwr | 90m | m | 60m | 400m |



Pa gyfuniadau sy'n bosib?
What combinations are possible?

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | m | m | m | 200m |
| Prop | m | m | m | 200m |
| Mewnwr | m | m | m | 200m |
| Cefnwr | m | m | m | 200m |
| Wythwr | m | m | m | 200m |
| Canolwr | m | m | m | 200m |
| Maswr | m | m | m | 200m |

## TASG MATHEMATEG 1 – MATHEMATICS TASK 1

**Mathemateg Rygbi** Mae chwaraewyr rygbi yn cerdded, loncian a rhedeg mewn gêm rygbi. Dewch o hyd i'r pellter mae'r chwaraewyr hyn wedi teithio yn ystod y gêm mewn 1 munud?
**Rugby Mathematics** Rugby players have to run, jog and walk during a game. How far have these players travelled in 1 minute?

Bron Yna

**Beth yw'r cyfanswm?**
**What's the total?**

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | 120m | 120m | 210m | m |
| Prop | 145m | 210m | 246m | m |
| Mewnwr | 215m | 325m | 240m | m |
| Cefnwr | 225m | 325m | 268m | m |



Dewch o hyd i'r pellteroedd coll.
Find the missing distance.

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | 140m | 250m | m | 500m |
| Prop | m | 150m | 180m | 500m |
| Mewnwr | 125m | m | 257m | 500m |
| Cefnwr | 290m | m | 165m | 500m |



Pa gyfuniadau sy'n bosib?
What combinations are possible?

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | m | m | m | 1km |
| Prop | m | m | m | 1km |
| Mewnwr | m | m | m | 1km |
| Cefnwr | m | m | m | 1km |
| Wythwr | m | m | m | 1km |
| Canolwr | m | m | m | 1km |
| Maswr | m | m | m | 1km |

## TASG MATHEMATEG 1 – MATHEMATICS TASK 1

Barod am Her

**Mathemateg Rygbi** Mae chwaraewyr rygbi yn cerdded, loncian a rhedeg mewn gêm rygbi. Dewch o hyd i'r pellter mae'r chwaraewyr hyn wedi teithio yn ystod y gêm mewn 1 munud?
**Rugby Mathematics** Rugby players have to run, jog and walk during a game. How far have these players travelled in 1 minute?

**Beth yw'r cyfanswm?**
**What's the total?**

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | 1.2km | 2.2km | 1.5km | Km |
| Prop | 1.45km | 2.1km | 2.45km | Km |
| Mewnwr | 2.15km | 3.25km | 2.4km | Km |
| Cefnwr | 2.25km | 3.25km | 2.68km | Km |



Dewch o hyd i'r pellteroedd coll.
Find the missing distance.

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | 1.4km | 1.5km | km | 4km |
| Prop | m | 1.5km | 1.8km | 4km |
| Mewnwr | 1.25km | km | 2.57km | 4km |
| Cefnwr | 1.9km | km | 1.65km | 4km |



Pa gyfuniadau sy'n bosib?
What combinations are possible?

| Safle | Cedded | Loncian | Rhedeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bachwr | km | km | km | 5km |
| Prop | km | km | km | 5km |
| Mewnwr | km | km | km | 5km |
| Cefnwr | km | km | km | 5km |
| Wythwr | km | km | km | 5km |
| Canolwr | km | km | km | 5km |
| Maswr | km | km | km | 5km |

TASG MATHEMATEG 2 – MATHEMATICS TASK 2

Cyrraedd 100 (Adref)
Reaching 100 (Complete at Home)

## Sgwâr 100 Square

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | 3 | 4 | | | | | | |
| 11 | | 13 | | | | | | 19 | 20 |
| 21 | | 23 | | 25 | | 27 | 28 | | |
| | | | | | | | | 39 | |
| 41 | | | 44 | | 46 | | | 49 | |
| 51 | | | | | | | | | 60 |
| | | | 64 | | 66 | | | 69 | |
| | | | | | | 77 | | 79 | |
| | | 83 | | | | 87 | | | |
| 91 | | | | | | | | 99 | |

Ar fy ffordd

## Cyrraedd 100 Reaching 100

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | + | | = | 100 | 23 | + | | = | 100 |
| | + | 40 | = | 100 | | + | 62 | = | 100 |
| 90 | + | | = | 100 | 49 | + | | = | 100 |
| | + | 25 | = | 100 | | + | 18 | = | 100 |
| 15 | + | | = | 100 | 22 | + | | = | 100 |
| | + | 75 | = | 100 | | + | 91 | = | 100 |
| 65 | + | | = | 100 | 43 | + | | = | 100 |
| | + | 5 | = | 100 | | + | 34 | = | 100 |

## Beth ydy'r rifau coll? What ar the missing numbers?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 100 | - | 10 | = | | 100 | - | 17 | = | |
| 100 | - | | = | 60 | 100 | - | | = | 71 |
| 100 | - | 30 | = | | 100 | - | 88 | = | |
| 100 | - | | = | 50 | 100 | - | | = | 44 |
| 100 | - | 85 | = | | 100 | - | 66 | = | |
| 100 | - | | = | 45 | 100 | - | | = | 27 |
| 100 | - | 65 | = | | 100 | - | 19 | = | |
| 100 | - | | = | 75 | 100 | - | | = | 68 |

## Newid o £1 Change From £1

| Talu | Gwario | Gwario | Newid |
|---|---|---|---|
| £1 | 20c | 40c | c |
| £1 | 15c | 30c | c |
| £1 | 60c | 25c | c |
| £1 | 35c | 55c | c |
| £1 | 18c | 27c | c |
| £1 | 46c | 19c | c |
| £1 | 49c | 18c | c |

TASG MATHEMATEG 2 – MATHEMATICS TASK 2

Cyrraedd 1000 (Adref)
Reaching 1000 (Complete at Home)

## Sgwâr 100 Square

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | | 30 | 40 | | | | | | |
| | | 130 | | | | | | 190 | 200 |
| 210 | | 230 | | 250 | | 270 | 280 | | |
| | 320 | | | | | | | 390 | |
| 410 | | | 440 | | 460 | | | 490 | |
| 510 | | | | | | | | | 600 |
| | | | 640 | | 660 | | | 690 | |
| | | | | | | 770 | | 790 | |
| | | 830 | | | | 870 | | | |
| 910 | | | | | | | | 990 | |

Bron Yna

## Cyrraedd 1000 Reaching 1000

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 200 | + | | = | 1000 | 230 | + | | = | 1000 |
| | + | 400 | = | 1000 | | + | 620 | = | 1000 |
| 900 | + | | = | 1000 | 490 | + | | = | 1000 |
| | + | 250 | = | 1000 | | + | 180 | = | 1000 |
| 150 | + | | = | 1000 | 223 | + | | = | 1000 |
| | + | 750 | = | 1000 | | + | 915 | = | 1000 |
| 650 | + | | = | 1000 | 436 | + | | = | 1000 |
| | + | 50 | = | 1000 | | + | 349 | = | 1000 |

## Beth ydy'r rifau coll? What ar the missing numbers?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1000 | - | 100 | = | | 1000 | - | 170 | = | |
| 1000 | - | | = | 600 | 1000 | - | | = | 710 |
| 1000 | - | 300 | = | | 1000 | - | 880 | = | |
| 1000 | - | | = | 500 | 1000 | - | | = | 444 |
| 1000 | - | 850 | = | | 1000 | - | 667 | = | |
| 1000 | - | | = | 450 | 1000 | - | | = | 278 |
| 1000 | - | 650 | = | | 1000 | - | 199 | = | |
| 1000 | - | | = | 750 | 1000 | - | | = | 688 |

## Newid o £10 Change From £10

| Talu | Gwario | Gwario | Newid |
|---|---|---|---|
| £10 | £2.50 | £3.20 | |
| £10 | £5.20 | £1.60 | |
| £10 | £4.40 | £3.50 | |
| £10 | £7.50 | £1.99 | |
| £10 | £6.30 | £1.98 | |
| £10 | £4.22 | £2.99 | |
| £10 | £5.55 | £2.99 | |

TASG MATHEMATEG 2 – MATHEMATICS TASK 2

Cyrraedd 10 (Adref)
Reaching 10 (Complete at Home)

## Sgwâr 100 Square

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0.1 | | | 0.4 | | 0.6 | | | | |
| 1.1 | | 1.3 | | | | | | 1.9 | 2.0 |
| 2.1 | | 2.3 | | 2.5 | | 2.7 | 2.8 | | |
| | | | | | | | | 3.9 | |
| 4.1 | | | 4.4 | | 4.6 | | | 4.9 | |
| 5.1 | | | | | | | | | 6.0 |
| | | | 6.4 | | 6.6 | | | | |
| | | | | | | 7.7 | | 7.9 | |
| | | 8.3 | | | | 8.7 | | | |
| 9.1 | | | | | | | | 9.9 | |

Barod am Her

## Cyrraedd 10 Reaching 10

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.0 | + | | = | 10 | 2.3 | + | | = | 10 |
| | + | 4.0 | = | 10 | | + | 6.2 | = | 10 |
| 9.0 | + | | = | 10 | 4.9 | + | | = | 10 |
| | + | 2.5 | = | 10 | | + | 1.8 | = | 10 |
| 1.5 | + | | = | 10 | 2.2 | + | | = | 10 |
| | + | 7.5 | = | 10 | | + | 9.1 | = | 10 |
| 6.5 | + | | = | 10 | 4.3 | + | | = | 10 |
| | + | 0.5 | = | 10 | | + | 3.4 | = | 10 |

## Beth ydy'r rifau coll? What ar the missing numbers?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | - | 1.0 | = | | 10 | - | 1.7 | = | |
| 10 | - | | = | 6.0 | 10 | - | | = | 7.1 |
| 10 | - | 7.5 | = | | 10 | - | 8.8 | = | |
| 10 | - | | = | 2.5 | 10 | - | | = | 4.4 |
| 10 | - | 8.5 | = | | 10 | - | 6.6 | = | |
| 10 | - | | = | 4.5 | 10 | - | | = | 2.7 |
| 10 | - | 6.5 | = | | 10 | - | 1.9 | = | |
| 10 | - | | = | 7.5 | 10 | - | | = | 6.8 |

## Newid o £100 Change From £100

| Talu | Gwario | Gwario | Newid |
|---|---|---|---|
| £100 | £24.70 | £54.80 | £ |
| £100 | £19.60 | £27.90 | £ |
| £100 | £43.75 | £22.20 | £ |
| £100 | £24.56 | £52.88 | £ |
| £100 | £33.66 | £29.78 | £ |
| £100 | £78.67 | £19.85 | £ |
| £100 | £12.47 | £81.99 | £ |

# Mathemateg Tasg 3- quiz (Adref)
# Task 3 - Mathematics- quiz (Complete at home)

1. http://hwb.gov.wales

2. LOG IN

3. Username ……@hwbcymru.net
4. Password …..yib5@Rihb------

Office 365

Teams

General Posts Files Class Notebook Assignments

**Tasg Mathemateg 3 Cwis Bondiau Rif**
**Mathematics Task 3 Number Bonds Quiz**


Cwis Bondiau Rif – **Ar Fy Ffordd**
Cwis Bondiau Rif **Bron Yna**
Cwis Bondiau Rif– **Barod Am Her Newydd**

# TASG ARLOESI 1 – Coedwigoedd Glaw Trofannol (Adre)

# INNOVATION TASK 1 – Tropical Rainforests (Complete at home)

## Mae gan goedwigoedd glaw trofannol bedair haen.

- **Haen Allddodol** – Mae'r coed anferth hyn yn gwthio uwchben yr haen canopi trwchus ac mae ganddynt goronau siâp madarch enfawr. Mae'r coed hyn yn mwynhau'r swm mwyaf o olau'r haul, ond mae'n rhaid iddyn nhw hefyd ddioddef tymheredd uchel, lleithder isel a gwyntoedd cryfion.
- **Haen Canopi** – Mae coronau llydan y coed hyn yn ffurfio canopi tynn, 60 i 90 troedfedd uwchben y ddaear. Yn aml, mae'r canghennau wedi eu gorchuddio'n drwchus gan blanhigion ac wedi'u clymu wrth ei gilydd gan winwydd. Mae'r canopi yn gartref i 90% o'r organebau sydd yn cael eu darganfod yn y goedwig law.
- **Isdyfiant** – Mae'r isdyfiant yn derbyn dim ond 2-15% o'r golau haul sy'n disgyn ar y canopi ac felly, mae'n le tywyll. Mae'n gymharol agored, ac mae'n cynnwys coed ifanc a phlanhigion llysieuol.
- **Llawr y Goedwig** – Mae llawr y goedwig yn derbyn llai na 2% o olau'r haul ac o ganlyniad, ychydig sy'n tyfu yma. Mae haen denau o ddail, hadau, ffrwythau a changhennau wedi syrthio ar y llawr, sydd yn pydru'n gyflym iawn.




## Tropical rainforests have four layers.

- **Emergent Layer** – These giant trees thrust above the dense canopy layer and have huge mushroom-shaped crowns. These trees enjoy the greatest amount of sunlight but also must endure high temperatures, low humidity and strong winds.
- **Canopy Layer** – The broad, irregular crowns of these trees form a tight, continues canopy 60 to 90 feet above the ground. The branches are often densely covered with other plants and tied together with vines. The canopy is home to 90% of the organisms found in the rainforest.
- **Understory** – Receiving only 2-15% of the sunlight that falls on the canopy, the understory is a dark place. It is relatively open and contains young trees and leafy plants.
- **Forest Floor** – The forest floor receives less than 2% of the sunlight and consequently, little grows here except plants adapted to very low light. On the floor is a thin layer of fallen leaves, seeds, fruits, and branches.

## Eich Tasg / Your Task

Ymchwiliwich i'r anifeiliaid sydd yn byw yn y goedwig law trofannol. Gwyliwch y fidios isod am fwy o wybodaeth.

Research into the animals that live in the tropical rainforest. Watch the following videos for further information.

https://www.bbc.co.uk/bitesize/clips/zkdnvcw

https://www.youtube.com/watch?v=JEsV5rqbVNQ

https://www.youtube.com/watch?v=3vijLre76Ow

### Geirfa Defnyddiol/Useful Words

Goedwigoedd glaw tofannol/Tropical rainforests    cyhydedd/equator
Haen allddodol/Emergent layer    poeth/hot    gwlyb/wet    lleithder/humidity
Haen canopi/Canopy layer    golau haul/sunlight    canghennau/branches
Isdyfiant/Understory    planhigion/plants    pydru/rot    troedfedd/foot
Llawr y goedwig/Forest floor    organebau/organisms    gorchuddio/covered

# TASG ARLOESI 1 – Coedwigoedd Glaw Trofannol (Adre)
# INNOVATION TASK 1 – Tropical Rainforests (Complete at home)

Cwblhewch y tabl isod./Complete the table below.

| Enw'r anifail sydd yn byw yn y goedwig law trofannol<br>Name of animal that lives in the Tropical Rainforest | Ym mha haenen o'r goedwig law ydy'r anifail yn byw?<br>In which layer of the rainforest does the animal live? | Pam ydy'r anifail yn byw yn yr haenen yma o'r goedwig law?<br>Why does the animal live in this layer of the rainforest? |
|---|---|---|
| | | Mae'n byw fan hyn oherwydd |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |


Cofiwch ddefnyddio Geiriadur yr Academi i helpu chi i gyfieithu enwau'r anifeiliaid I'r Gymraeg/Please remember to use Geiriadur yr Academi to help you translate the name of the animals to Welsh.
https://geiriaduracademi.org/?lang=en



## TASG ARLOESI 2–Anifeiliaid Arbennig Coedwigoedd Glaw Trofannol (Adre)
## INNOVATION TASK 2–Amazing Animals of the Tropical Rainforests (At home)

Dyma fraslun o'r anifail yr oedd yn diddori mi fwyaf.
Here's a sketch of the animal that interests me the most.

**Eliffant Africanaidd**




Cofiwch labeli'r braslunaid yn daclus gan ddefnyddio pensil a phren mesur.
Don't forget to use a ruler and pencil to label the sketch neatly.

| Dyma ffeithiau diddorol am yr anifail yma. / Here are some interesting facts about this animal. |
|---|
| 1. Oeddech chi'n gwybod fod yr eilffant Africanaidd yn defnyddio ei glustiau mawr i helpu ei hun i oeri pan mae'r tywydd yn boeth? |
| 2. Mae'n ffaith fod yr eliffantod yma yn defnyddio ei drwnc i sugno dŵr – mae'r trwnc yn gallu dal hyd at 8 litr o ddŵr! |
| 3. Darganyddais i fod yr eliffant Africanaidd hefyd yn defnyddio ei drwnc fel snorcel wrth nofio. |
| 4. Mae naturiaethwyr wedi dargnafod fod yr eliffant yma yn bwyta hyd at 150kg o fwyd bob dydd – mae hwna yr un maint â 375 tin o ffa pob! |
| 5. Cefais i syfrdanu wrth ddarganfod fod ganddyn nhw cof arbennig o dda. |

Pam ydy'r anifail yn byw yn yr haen yma o'r goedwig law? Why does the animal live in this layer of the rainforest?

Credaf fod yr eliffant Africanaidd yn byw ar lawr y goedwig law achos mae'n gallu bwyta y planhigion sydd ar gael ac hefyd mae'n gallu teimlo'r dirgryniadau ar y llawr sydd yn helpu iddo gyfathrebu ac edrych allan am berygl e.e. gelynion.

TASG ARLOESI 2–Anifeiliaid Arbennig Coedwigoedd Glaw Trofannol (Adre)

INNOVATION TASK 2–Amazing Animals of the Tropical Rainforests (At home)

**Eich Tasg / Your Task** Dewisiwch anifail arall o'r goedwig law trofannol sydd yn eich diddori mwyaf./*Choose another animal from the tropical rainforest that interests you the most.*

Cofiwch labeli'r brasluniad yn daclus gan ddefnyddio pensil a phren mesur.

Don't forget to use a ruler and pencil to label the sketch neatly.

| Dyma ffeithiau diddorol am yr anifail yma. / Here are some interesting facts about this animal. |
|---|
| 1. |
| 2. |
| 3. |
| 4. |
| 5. |

Pam ydy'r anifail yn byw yn yr haen yma o'r goedwig law? Why does the animal live in this layer of the rainforest?

# TASG ARLOESI 3–Planhigion Rhyfeddol Coedwigoedd Glaw Trofannol (Adre)

## INNOVATION TASK 2–Peculiar Plants of the Tropical Rainforests (At home)

Mae'r tegeirian yn flodyn prydferth sydd yn tyfu yn nyfnder y goedwig law trofannol.
The orchid is a beautiful flower that grows in the depths of the tropical rainforest.















Edrychwch ar y lliwiau, y llinellau a'r siapiau yn ofalus.
Look at the colours, the lines and shapes carefully.

# TASG ARLOESI 3–Planhigion Rhyfeddol Coedwigoedd Glaw Trofannol (Adre)

## INNOVATION TASK 3–Peculiar Plants of the Tropical Rainforests (At home)

**Eich Tasg**
**Your Task**



Defnyddiwch bensil, paent neu unrhyw gyfrwng yr hoffech i greu llun gwych o'r tegeirian. Cofwich sulwi ar y lliw, y cysgodi, y llinellau diddorol a'r siapiau.

Use a pencil, paint or any medium of your choice to create a beautiful picture of an orchid. Don't forget to pay attention to the colour, the shading, the interesting lines and the shapes.

# Tasg 1 Lles (Yn yr Ysgol)

## Wellbeing Task 1 (Will be completed in school)

A fedrwch chi greu cardiau fflach sy'n dangos, cwtch, neges a pump uchel? Gallech ddangos y cardiau i'ch ffrindiau ar yr iard!

Can you make flash cards that show hugs, messages and a high fives? You can show these to your friends on the yard.

# Tasg 2 Lles (Yn yr ysgol)
## Wellbeing Task 2 (In school)

Trafodwch a nodwch eich sylwadau isod, gan dynnu llun o'ch hunan yn y canol.

*Discuss the above questions and note your opinions. Draw a picture of yourself in the centre.*

Beth weithiodd yn dda i chi yn y tŷ? *What worked well for you at home?*

____________________________

____________________________

____________________________

____________________________

____________________________

____________________________

____________________________

____________________________

Beth oeddech chi'n gweld yn heriol yn ystod yr amser yma?
*What didn't work well during the time you were at home?*

____________________________

____________________________

____________________________

____________________________


____________________________

____________________________

____________________________

____________________________

# Tasg Lles 3 E-ddiogelwch cydbwyso amser sgrin (Adre)
# Task Wellbeing 3 E-safety balancing screen time (At home)



**Yn gyntaf, gwyliwch y fideo yma: https://www.youtube.com/watch?v=kgCNGvL0g1g.**

Wythnos yma rydyn ni'n mynd i edrych ar stori Keiran (5:55):





Dechreuodd Kieran chwarae gemau gyda'i ffrindiau pan oedd yn saith mlwydd oed ac yn y blynyddoedd a ddilynodd daeth yn gaeth (*addicted*).



Byddai'n aros i fyny trwy'r nos i chwarae. Rhoddodd y gorau i olchi a dechrau cwympo i gysgu yn yr ysgol.



Erbyn 15 mlwydd oed roedd yn rhaid iddo adael yr ysgol.



Sylweddololodd bryd hynny fod ganddo broblem a gofynnodd am help.



Mae yna lawer o bethau da am fod ar-lein a chwarae gemau, ond mae bod o flaen sgrin ac yn y byd rhithiol (*virtual*) am amser rhy hir yn cael effeithiau negyddol arnoch chi.  Mae'n bwysig eich bod chi'n gallu gweld yr arwyddion a dod o hyd i gydbwysedd.

Mae Lles Digidol yn bwysig iawn er mwyn i chi ddal i gael hwyl ar-lein wrth gadw'n ddiogel a thyfu'n oedolyn iach.

Mae 2 weithgaredd yr wythnos hon i chi eu cwblhau a hefyd tasg her i'r rhai ohonoch sydd am wthio eich hun;

**Sylwi ar yr arwyddion**



**Dod o hyd i falans**




**Tasg Her**



Am fwy o wybodaeth a help i ddod o hyd i gydbwysedd iach yn eich bywyd, edrychwch ar: Childlinehttps://www.childnet.com/teachers-and-professionals/for-working-with-young-people/hot-topics/screen-time-healthy-balance ac Internet Matters : https://www.internetmatters.org/resources/screen-time-tips-to-support-7-11-year-olds/

# Tasg Lles 3 E-ddiogelwch cydbwyso amser sgrin- (Adre)
# Task Wellbeing 3 E-safety balancing screen time (At home)



**Firstly, watch this Newsround video: https://www.youtube.com/watch?v=kgCNGvL0g1g.**


This week we're going to be looking at Keiran's story (5:55):







Kieran started playing games with his friends when he was seven years old and in the years that followed became addicted.



He would stay up all night to play, he stopped washing and started falling asleep in school.



He would stay up all night to play, he stopped washing and started falling asleep in school. By 15 years old he had to drop out of school.



He soon realised then that he had a problem and asked for help.



There are many benefits to being online and playing games but being in front of a screen and in the "virtual world" for <u>too long</u> will have negative effects on you. It's important that you can spot the signs and find a balance.

Digital Wellbeing is really important in order for you to still have fun online while keeping safe and growing into a healthy adult..

There are 2 main parts to this week's activity for you to complete plus a challenge task for those who want to push themselves;

**<u>Spotting the Signs</u>**



**<u>Finding a balance</u>**




**<u>Challenge Task</u>**



For more information and help on finding a healthy balance in your life have a look at Childline : https://www.childnet.com/teachers-and-professionals/for-working-with-young-people/hot-topics/screen-time-healthy-balance and Internet Matters : https://www.internetmatters.org/resources/screen-time-tips-to-support-7-11-year-olds/

# Tasg Lles 3 E-ddiogelwch cydbwyso amser sgrin (Adre)
# Task Wellbeing 3 E-safety balancing screen time (At home)



## Sylwi ar yr arwyddion



| Arwyddion o'r byd o'ch cwmpas / Signs from the world around you | Arwyddion o'ch corff eich hun / Signs from your own body |
|---|---|

*Beth yw'r arwyddion eich bod wedi bod yn edrych ar sgrin neu wedi bod yn y byd rhithiol yn rhy hir?*

**Tasg 1**

A allwch chi liwio'r enghreifftiau isod i ddangos os mae'r arwydd yn dod o'r **amgylchedd o'ch cwmpas (lliwiwch mewn oren)** neu o'ch **corff eich hun (lliwiwch mewn glas)**? Mae enghraifft wedi'i wneud i chi. / Can you colour the examples below to show if the sign comes from the **environment around you (colour in orange)** or from **your own body (colour in blue)?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Pen tost* | *Mae'n anodd mynd i gysgu* | *Mae'r ddyfais yn teimlo'n boeth iawn* | *Teimlo'n oriog (moody) neu'n flin* |
| *Meddwl yn gyson (constantly) am fod ar-lein* | *Mae aelodau'r teulu'n sôn am ba mor hir rydych chi wedi bod ar-lein* | *Golwg niwlog (blurry vision)* | *Mae'r ddyfais yn rhedeg allan o fatri* |
| *Yn teimlo'n llwglyd (hungry)* | *Edrych ar y cloc a sylweddoli bod llawer o amser wedi mynd heibio* | *Neges ar y sgrin yn gofyn a ydych chi yno o hyd* | *Poen gwddf* |





**Tasg 2**

A allwch chi feddwl am fwy o enghreifftiau i lenwi'r tabl? / Can you think of more examples to fill the table?

| Arwyddion o'r byd o'ch cwmpas | Arwyddion o'ch corff eich hun |
|---|---|
| *Mae Mam a Dad yn gwneud i mi roi'r dabled i ffwrdd* | *Mae fy llygaid yn brifo* |
| *Rwy'n sylwi ei bod wedi tywyllu y tu allan* | *Dwi angen diod* |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Tasg Lles 3 E-ddiogelwch cydbwyso amser sgrin (Adre)
# Task Wellbeing 3 E-safety balancing screen time (At home)



## Dod o hyd i falans





### Tasg 1

Tynnwch llinellau i gysylltu'r arwyddion â datrysiad / Draw lines to connect the signs with a solution


| | |
|---|---|
| Yn teimlo'n llwglyd | Os ydych chi wedi bod yn eistedd yn edrych yn rhy hir, rhowch gynnig ar rai ymarferion ysgafn. Chwarae gêm fel pêl-droed neu dag sy'n cael eich corff i symud. |
| Poen gwddf | Cymerwch seibiant a dewch o hyd i rywbeth i'w fwyta! Efallai y bydd angen byrbryd arnoch chi ond gall diod o ddŵr hefyd helpu i roi'r egni sydd ei angen ar eich corff. |
| Batri fflat | Gall bod ar-lein effeithio ar eich hwyliau felly rhowch y ddyfais i lawr a dewch o hyd i rywbeth i'ch codi chi: dal i fyny gyda ffrindiau neu ymlacio gyda'ch teulu. |
| Pen tost | Peidiwch â phlygio i mewn a dal i ddefnyddio'r ddyfais. Defnyddiwch hwn fel esgus i'w roi i un ochr a gwneud rhywbeth arall yn lle. Beth am fynd allan am ychydig? |
| Teimlo'n oriog (moody) | Mae hyn yn arwydd nad ydych chi wedi bod yn yfed digon, felly ewch i nôl diod o ddŵr ar unwaith. Mae hefyd yn dda gwneud rhywbeth sy'n rhoi seibiant i'ch llygaid. |

### Tasg 2

A allwch chi dynnu llun a fydd yn cydbwyso'r dasg ar-lein â thasg all-lein i helpu i gadw'r graddfeydd yn gytbwys? / Can you draw a picture that will balance the online task with an offline task to help keep the scales balanced?

Tasg arlein

Tasg all-lein (offline)




Tasg arlein

Tasg all-lein (offline)



# Tasg Lles 3 E-ddiogelwch cydbwyso amser sgrin
# Task Wellbeing 3 E-safety balancing screen time



**Tasg Her**



Cyfaill Cynghori yw rhywun sy'n rhoi cyngor i bobl am eu problemau.
An Agony Aunt is someone who gives advice to people about their problems.

**Tasg**

Trowch mewn i Gyfaill Cynghori trwy ysgrifennu ymateb i'r llythyrau hyn sy'n gofyn am gyngor ynghylch treulio gormod o amser ar-lein. Allwch chi helpu pob person i gael cydbwysedd iach? / Become an Agony Aunt by writing a response to these letters that are asking for advice about spending too much time online. Can you help each person gain a healthy balance?

Annwyl Cyfaill Cynghori,

Dwi wrth fy modd yn chwarae ar-lein ond weithiau dwi'n cael pen tost gwael iawn. Rwy'n meddwl am chwarae gemau arlein trwy'r amser ac weithiau rydw i hyd yn oed yn anghofio bwyta. Beth ddylwn i ei wneud?

**Llew o Gasnewydd**

Annwyl Llew,

Oddi wrth,

**Cyfaill Cynghori**